

Caeriw



PELLTER/HYD: Cylched llawn 3.3 milltir (5.3 km) 1 awr 45 munud
Carew Newton loop 1.6 milltir (2.7 km) 1 awr, Milton loop 1.7 milltir (2.8 km) 1 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Cairew/Milton 360/361

CYMERIAD: Gwastad, caeau a da byw, 800 m o gerdded ar y ffordd

CHWILIWCH AM: Castell Ganoloesol • Pwll y Felin • Eglwys • Melin Gribo

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref avda chi

ALLWEDD

- ● ● ● Llwybr Cylch
- — — — Llwybrau Cyhoeddus
-  Maes Parcio
-  Toiledau Cyhoeddus
-  Safle Bws
-  Tafarn

Caeriw

Teithiau Byr

Hyd: Cylched llawn 1 awr 45 munud.
1 awr each loop.

Pellter: Cylched llawn 3.3 milltir (5.3 km), Carew Newton loop 1.6 milltir (2.7 km), Milton loop 1.7 milltir (2.8 km).

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Cairew/Milton 360/361.

Cyfiernod map: SN045037

Pwll y felin yng Nghairew yw un o'r lleoliadau harddaf yn Sir Benfro. Ar ddiwrnod llonydd, pan fydd y llanw'n uchel, mae'r ehangder 23-erw o d dŵr yn adlewyrchu'r castell a'r felin gerllaw yn berffaith.

Estynnodd y Normaniaid eu concwest o Loegr i mewn i Gymru ar ddiwedd yr 11eg ganrif gan wneud Castell Penfro yn ganolbwynt i'w teyrnasiad yn Ne Sir Benfro.

Dewisodd cwnstabl Castell Penfro, Gerald de Windsor, adeiladu ei amddiffynfa ei hun yng Nghairew, ychydig i fyny'r ddyfrffordd lanwol o Benfro.

Ond nid de Windsor oedd y cyntaf i fyw ar y safle ar lan yr afon. Mae archeolegwyr wedi darganfod arwyddion o anheddiad Oes Haearn yn agos at y Castell yn ogystal â chrochenwaith Rhufeinig.

Fwy na thebyg yr adeiladwyd y castell cyntaf o bridd a phren. Yna, cymerwyd ei le gan gastell o gerrig ac ychwanegwyd ato dros y canrifoedd.

Cymerodd y datblygiad diwethaf le yn yr 16eg ganrif pan ailfodelwyd ochr ogleddol yr adeilad, gan ychwanegu'r ffenestri crand sy'n edrych allan dros lyn y felin.

Roedd melin yng Nghairew mor gynnar â 1542. Fwy na thebyg bod yr adeilad presennol yn dyddio o'r 19eg ganrif gynnar ac, yn aml, caiff ei adnabod fel y Felin Ffrengig, o bosib am i feini'r felin ddod o Ffrainc.

Erbyn hyn, mae'r felin wedi ei hadfer ac yn cael ei gweinyddu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fe all ymwelwyr weld arddangosfa barhaol sy'n olrhain hanes y melino.

Yng Nghairew, un o'r atgofion mwyaf amlwg o'i orffennol cyn-Normanaid yw'r Groes Geltaidd drawiadol. Mae gan Sir Benfro dros 100 o gerrig sy'n dyddio o ganrifoedd cyntaf Cristnogaeth a chredir bod croes Cairew wedi ei chodi fel cofgolofn yn 1035.

Mae'r ardal yn lle gwych i wyluo adar. Mae'r llyn yn denu rhydwyr fel pibyddion coesgoch, y gylfinir a phibydd y traeth ac mae yna elyrch yn byw yma hefyd.

Mae'r ddyfrffordd hefyd yn lle gwych i weld ystlumod ar nosweithiau o haf. Mae bron i hanner y rhywogaethau ystlum a geir ym Mhrydain wedi eu cofnodi yng Nghairew.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

